Y CYLCHGRAWN CYMRAEG SY'N DATHLU POB YMDRECH I WARCHOD EIN BYD

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 24 Mehefin / Gorffennaf 2011

PRIS: £1

## Llythyr Agored at Adam Price


### Angen cofio'r Ddaear wrth drafod annibyniaeth gwledydd bychain







### Fenis a Charleston - 'Na! Dim diolch!' i 'ddatblygwyr' sy'n bygwth etifeddiaeth




### Y Ddaeaar - ein planed newydd, anghroesawgar?

ISSN 1755-3504

Catharine Huws Nagashima — Cymraes o Siapan yn asesu Trefi Trawsnewid Cymru ► Gordon James — Herio Carwyn a Ieuan ar bwnc atomfeydd ► San Steffan i wthio ynni carbon-isel ► *Newyddion Gwyrdd o bedwar ban*

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


**MAE'R Papur Gwyrdd yn falch i nodi dau ddatblygiad o bwys gyda'r rhifyn hwn. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth Glymblaid wedi cyhoeddi eu bwriad i ddatblygu systemau ynni carbon-isel ar fyrder. Yn yr Alban, ffurfiodd yr SNP lywodraeth wedi datganiad clir eu bod hwythau'n gweld ynni adnewyddol fel y ffordd ymlaen. Croesawn yr arwyddion hyn bod torri $CO_2$ ar yr agenda o ddifrif.**

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Gwthio ynni carbon-isel — ond beth am yr haul?

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies —**
Ein 'Daeaar' newydd yn blaned lai cyfeillgar?

**5** **Llythyr Agored at Adam Price —**



Angen cofio Newid Hinsawdd wrth drafod annibyniaeth ein cenhedloedd bychain

**6** Storm yn Climate Camp
**Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear — hanesion o bell ac agos

**7** **Catharine Nagashima —**
Trefi Trawsnewid a'r Cymry … a Daeargryn Siapan

**8** **Gordon James —**
Atomfeydd yn gostus, yn araf, yn beryglus





**9** **Charlotte Davies** —
Fenis a Charleston yn mynnu parch i'w hetifeddiaeth

**10** **Daear-iadur**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru?

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Brwdfrydedd gwyrdd — a llyfrau o America


*MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12*



# 'Ympryd Carbon' yn ystod Grawys

**'YMPRYD Carbon' — dyna oedd y syniad apelgar y dysgon ni amdano wrth i ni ymweld ag Eglwys Fethodistaidd Shandon yng Ngholumbia, De Carolina, ar Sul y Pasg (llun isod).**

**Dyna'r eglwys lle priodon ni ym 1979. Blwyddyn erchyll i Gymru; blwyddyn ardderchog i ni!**

Roedd aelodau'r eglwys fawr honno wedi cael calendrau Grawys yn awgrymu sut gallant gynnal 'Ympryd Carbon' er lles y Ddaear wrth baratoi at y Pasg.

<u>Dyma oedd rhai o'r syniadau ar gyfer y 40 diwrnod:</u>

**Cymrwch** gawod yn lle bath i arbed dŵr

**Ail-gylchwch** fatris trwy brosiect un o'r dosbarthiadau Ysgol Sul

**Ail-ddefnyddiwch** fygiau coffi yn lle yfed o Styrofoam

**Danfonwch** text at ffrind gyda syniad Gwyrdd

**Safiwch** betrol trwy yrru'n llai 'ymosodol'

**Diffoddwch** y teledu a'r cyfrifiadur ac ewch i fwynhau tro yn y wlad

**Darllenwch** lyfr ar sut i arbed ynni



**Ail-gylchwch** hen offer trydan trwy Gyngor y ddinas

**Bwytwch** un pryd llysieuol yr wythnos i leihau methan

**Cysylltwch â** gwleidydd i godi pwnc Gwyrdd

**Diffoddwch** *stand-by* gwastraffus eich offer trydan

**Trefnwch** gael casgen i ddal dŵr o'r to ar gyfer yr ardd … ac ymlaen.

Marciau llawn iddynt am ddyfeisgarwch ... a hwyl!

***Hywel a Charlotte***

## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………………..

CYFEIRIAD: ……………………………………………………..

…………………………………… Côd Post……………...

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**



## Angen help i gael gwared â llynnoedd slyri

MAE ymgyrchwyr yn ardal Hermon, Glog a Llanfyrnach yn Sir Benfro yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth ychwanegol i ffermwyr er mwyn iddyn nhw ddatblygu Treulwyr Anaerobig yn lle creu llynnoedd slyri peryglus. Wedi sawl cyfarfod fu'n trafod ofnau iechyd y pentrefi am y slyri, paratowyd deiseb i'r Llywodraeth. Mae pobl leol yn frwd i'r Llywodraeth gefnogi ffermio sy'n defnyddio arferion llai dwys a mwy cynaladwy. Yn benodol gelwir am gymorth ar gyfer offer anaerobig sy'n troi gwastraff anifeiliaid a phlanhigion yn nwy methan ar gyfer trydan adnewyddol. Mwy o wybodaeth: www.slurrycampaign.org.uk

**Cyfarfod yn trafod problem y llynnoedd slyri**

# Llundain yn gosod torri $CO_2$ yn ôl ar yr agenda — gan hybu ynni adnewyddol

**ER bod prif bleidiau Cymru wedi rhoi sylw siomedig o fychan i bynciau 'Gwyrdd' yn ystod ymgyrch etholiad y Cynulliad Cenedlaethol, mae Llywodraeth San Steffan wedi gosod y mater ynghanol yr agenda gwleidyddol eto gyda'u Cyllideb Carbon newydd.**

Rhoddwyd croeso cynnes er gofalus gan fudiadau'r Ddaear i ymrwymiad y Llywodraeth Glymblaid i sicrhau toriadau o 50% ar allyriadau carbon erbyn 2027 (o gymharu a 1990) gan hybu cynhyrchu trydan trwy systemau ynni adnewyddol.

Yn ôl y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a fu'n pwyso am bolisïau cryfion yn wyneb bygythiadau Newid Hinsawdd, mae hyn yn golygu bod y DG ar drac i gyrraedd y nod o doriad o 80% mewn allyriadau carbon erbyn 2050.

Cytunwyd ar y toriadau carbon er gwrthwynebiad cryf George Osborne, Canghellor y Trysorlys, a Vince Cable, y Gweinidog Busnes, sy'n honni eu bod yn fygythiad i'r economi. Roedd y ddau'n dadlau hyn gan anwybyddu'r rhybuddion bod Newid Hinsawdd yn llawer mwy o fygythiad i'r economi, fel y dangoswyd yn Adroddiad Stern yn 2006.

Un pryder yw bod Llywodraeth y DG wedi dweud bod rhaid i wledydd eraill Ewrop ddilyn eu hesiampl neu bydd Llundain yn ail-ystyried y toriadau. Ofnir bod hyn yn magu ansicrwydd ymhlith, e.e., cwmnïau ynni adnewyddol.

Geilw mudiadau fel Cyfeillion y Ddaear Cymru, felly, ar i bawb sydd am ffrwyno Newid Hinsawdd barhau i osod pwysau ar wleidyddion wrth i'r Llywodraeth baratoi Gorchymyn Ynni newydd yn San Steffan.

**► Yn etholiad Senedd yr Alban, rhoddodd yr SNP sylw mawr i'w polisi uchelgeisiol o sicrhau bod 100% o drydan y wlad yn dod o ffynonellau adnewyddol erbyn 2020. Cafodd Alex Salmond a'i blaid fuddugoliaeth ysgubol gan ffurfio Llywodraeth fwyafrifol.**

## CWMWL LLE BU HAUL?

MAE cynllun taliadau Llywodraeth y DG i gynhyrchwyr trydan haul wedi profi'n llwyddiant mawr. Y bwriad oedd annog cynhyrchwyr bychain, ond ymunodd cwmnïau mawr. Nawr mae'r Llywodraeth yn ystyried tocio taliadau iddyn nhw—gan daflu cwmwl dros ynni haul.

## GWRTHOD 'FFRACIO'

MAE trigolion Bro Morgannwg wedi llwyddo yn eu brwydr i atal cynllun tyllu am nwy tanddaearol yn eu hardal — dros dro o leiaf.

Bu cwyno mawr mewn sawl gwlad am y system a gyfeirir ato fel 'ffracio' sy'n gwasgu hylifau cemegol i'r ddaear er mwyn gwthio nwy i'r wyneb. Tynnwyd y cynllun yn ôl wedi i fap cwmni *Coastal Oil and Gas* brofi'n ddiffygiol.

## YMGYRCHYDD GWYRDD CRYF YN GADAEL Y BAE

**GYDAG ymddeoliad Jane Davidson fel Aelod Cynulliad mae Llywodraeth Cymru wedi colli llais cryf o blaid polisïau i reoli cynhesu byd-eang a byw mewn ffordd gynaladwy.**



**Gwasanaethodd yn egnïol fel Gweinidog yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai Cymru o 2007 hyd Mai eleni. Gadawodd i ddatblygu Sefydliad Cynaladwyedd ym Mhrifysgol Cymru Drindod Dewi Sant .**

**Er rhai pynciau dadleuol, e.e. cefnogaeth y Llywodraeth i gynlluniau am losgyddion gwastraff fel un cwmni Covanta ym Merthyr Tudful, bu Ms Davidson yn glir a huawdl ei safiad o blaid mesurau i dorri ar allyriadau $CO_2$, hybu ynni adnewyddol a lleihau gwastraff.**

**Gosododd Cymru ar fap rhyngwladol gweithgarwch amgylcheddol trwy gymdeithas Rhanbarthau'r Byd. Mewn cynhadledd yng Nghaliffornia yn 2009 a gadeiriwyd gan Arnold Schwarzenegger, esboniodd fod Cymru eisoes yn anelu at doriad o 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.**

***► Gweinidog Amgylcheddol newydd Cymru yw John Griffiths, AC Casnewydd.***

## Cynnal cwmnïau sy'n ein hecsploetio?

ER mwyn 'creu swyddi', rydyn ni yn Kentucky, a thaleithiau cyntefig eraill, wedi arllwys arian cyhoeddus ar gorfforaethau sy'n dod mewn ac yn aros dim ond mor hir ag y gallant ecsploetio pobl yma'n fwy rhad nag mewn mannau eraill. Pwrpas cyffredinol yr economi presennol yw ecsploetio, nid meithrin na gwarchod.

**Wendell Berry (*Compromise, Hell!* cylchgrawn Orion 2004)**


Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.

Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.

www.cyddcymru.co.uk

02920 229 577

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru




GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES

# Fe aeth yr hen Ddaear annwyl heibio … sut ddeliwn â Daeaar newydd, gasach?

**ERBYN hyn, mae gan yr amgylcheddwr ymgyrchol rhyngwladol Bill McKibben ddelwedd gref i gyflwyno'i ofnau am ein dyfodol. Dydyn ni ddim bellach, meddai, yn byw ar hen blaned gynhaliol y Ddaear, planed ddof y buom yn cymryd ei chynefin cyfeillgar yn ganiataol. Fe ddaeth hi i ben.**

**Bellach rydym ar y blaned Ddaeaar, planed ymosodol sy'n cynhesu'n gyflym gan ddiosg patrymau dibynadwy ei thywydd cymhedrol blaenorol.**

Gyda dim ond $1^0$C o godiad yn nhymheredd y blaned o gymharu a chyfnodau cyn-ddiwydiannol, rydym eisoes yn teimlo llach stormydd ffyrnicach y Ddaeaar newydd hon, ei gwres casach a'i sychder, ei llifogydd enbytach, a chodiadau bygythiol lefel ei moroedd. A gwyddom mai dim ond cychwyn yw'r un $1^0$C hwnnw ar y prosesau sydd wedi'u rhyddhau gennym fel



dynoliaeth barus gyda'n tanwydd carbon, 'rhad'.

Fel un a raddiodd yn Harvard ac a fu'n newyddiadurwr gyda chylchgrawn y **New Yorker**, fe gyhoeddodd Bill McKibben ei ofnau cynharaf mewn llyfr yn dwyn y teitl **The Death of Nature** ym 1989. Edrychir ar y llyfr hwnnw fel yr esboniad arloesol o newid hinsawdd i'r cyhoedd.

Mae ei lyfr newydd, **Eaarth**, yn asesu ffrwyth ein methiant yn ystod yr 20 mlynedd a aeth heibio i ffrwyno'r cynhesu, ein methiant i gydnabod yr angen yn wir. Mae'n ddisgrifiad ysgytwol o'r hyn sy'n digwydd o ran yr amgylchedd a'r hinsawdd, a'r hyn sy'n ein hwynebu ni i gyd o ganlyniad.

Da dweud bod y llyfr hefyd yn cynnwys gobeithion Bill McKibben ynglŷn â sut y gallwn geisio achub y sefyllfa trwy newid ein ffordd o fyw. Fydd rhain ddim yn ddigon i ddal gafael ar ein Daear annwyl – mae'n rhy hwyr am hynny, meddai — ond o leiaf fe fyddan nhw'n cynnig cyfle i leddfu ar gymeriad gwylltach Daeaar.

"Bydd angen i ni newid i ddelio gyda'r Ddaeaar newydd rydym wedi'i chreu," meddai. "Yn fwy na dim, bydd rhaid i ni droi'n llai o faint ac yn llai canoledig, gan ganolbwyntio nid ar dwf ond ar gynhaliaeth, a dod lawr yn drefnus o'r uchelfannau peryglus rydym wedi dringo atyn nhw." Ei gred yw y bydd gan y rhyngrwyd le canolog yn y broses.

Medd cylchgrawn **Time** am yr awdur a'i awgrymiadau: "Efallai mai Bill McKibben yw newyddiadurwr gwyrdd gorau'r byd ... Beth sy'n gosod **Eaarth** ar wahân i lyfrau gwyrdd eraill yw ei bresgripsiwn ar sut y gallwn oroesi. Nid mater syml o newid ychydig o fylbiau golau fydd hyn."

Mae'r llyfr yn un arbennig iawn. Brawychus ond gobeithiol. Ymunwn gydag anogaeth y nofelydd Barbara Kingsolver: "Darllenwch e, os gwelwch yn dda. Yn syth drwodd at y diwedd. Beth bynnag roeddech chi'n bwriadu'i wneud nesaf, allai ddim bod yn bwysicach."

***Eaarth*, Bill McKibben (St Martin's Griffin NY, 2010)**

Ewch at y Wê-Borth Gymraeg
i'r Mudiad Ecolegol Byd-eang
GWEFAN Y PAPUR GWYRDD
www.ypapurgwyrdd.com
Cymru a'r Ddaear * Gwyddoniaeth
Ymgyrch Cymru * Cysylltiadau

## Ein hannog i weithgarwch

LLONGYFARCHIADAU i Adran Ddinasyddiaeth Undeb Annibynwyr Cymru am fynd ati i drefnu'r Gynhadledd Newid Hinsawdd a gynhaliwyd ym Mangor. Roedd hyn yn esiampl dda o gorff cenedlaethol yn derbyn y cyfrifoldeb i addysgu pobl am ganlyniadau cynhesu byd-eang ac yn cynnig y cyfle iddynt drafod yr hyn sydd angen ei wneud wrth ymateb iddo.

Cychwynodd y gynhadledd gyda darlith gyhoeddus gan y gwyddonydd Syr John Houghton, Aberdyfi, sydd wedi bod ynghanol y maes ar hyd ei yrfa. Cynigiodd amlinelliad clir o ddatblygiad y dystiolaeth sydd wedi cysylltu allyriadau nwyon tŷ gwydr megis carbon deuocsid gyda'r cynnydd ar gyfartaledd yn nhymheredd yr atmosffer sy'n amgylchynnu'r Ddaear.

Aeth ymlaen i esbonio canlyniadau peryglus tebygol y codiad tymheredd hwn sy'n digwydd yn gyflymach nag ers amser maith yn hanes y blaned. Cyfeiriodd at yr eithafion sydd bellach yn amlygu eu hunain – hafau llawer poethach a chyfnodau sychach, stormydd glaw ffyrnicach a llifogydd mwy dinistriol, codiadau yn lefel y môr fydd yn golygu y bydd miliynau o bobl yn dioddef.

Beirniadodd y corfforaethau ynni carbon enfawr hynny sydd wedi talu miliynau o ddoleri i ariannu ymgyrch pwerus i godi amheuon di-sail am gywirdeb gwyddonol y rhybuddion ynglŷn â newid hinsawdd. Mynnodd Syr John fod gwaith Panel



Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd wedi bod yn onest ac yn gytbwys. Roedd yn ffrwyth gwaith cannoedd o wyddonwyr led-led y byd a ddaeth i'w casgliadau yn ofalus wedi proses scriwtineiddio manwl a heb unrhyw 'agenda' cudd.

Dywedodd ei fod yn canmol ein Cynulliad Cenedlaethol am ei ymroddiad i bolisïau cynaladwy fydd yn cyfrannu at leihad sylweddol mewn allyriadau $CO_2$. Edrychodd ymlaen at ddatblygu systemau ynni adnewyddol newydd, gan gynnwys yr ynni mor y mae ef ei hun yn gefnogol arbennig iddo.

Gorffennodd Syr John ei sylwadau gydag anogaeth daer i bawb ohonom. Fel pobl sydd wedi elwa o ynni rhad, meddai, dylem dderbyn y cyfrifoldeb i wneud ein rhan i ffrwyno'r Newid Hinsawdd sy'n achosi loes i'r tlodion yn bennaf (ar hyn o bryd).

Gosododd ei holl sylwadau mewn cyd-destun Cristnogol. Bu'r Bedyddwyr a'r Presbyteriaid (ynghyd â Chymorth Cristnogol) yn gefn i'r Annibynwyr wrth drefnu'r gynhadledd bwysig hon.

Byddai'r **Papur Gwyrdd** yn falch iawn i glywed am gapeli sy'n ymateb i'w apêl trwy lansio amrywiaeth o weithgareddau amgylcheddol. ☐

LLYTHYR AGORED AT Y CYN-AELOD SENEDDOL ADAM PRICE
GAN HYWEL DAVIES, GOLYGYDD, Y PAPUR GWYRDD

# Rheoli Newid Hinsawdd — canolog i bob trafodaeth ar ddyfodol cenhedloedd



Ysgol Lywodraeth John F. Kennedy — Harvard, Unol Daleithiau'r Amerig

Annwyl Adam,

**LLONGYFARCHION ar amseriad eich erthygl am fanteision annibyniaeth i genhedloedd bychain ymddangosodd yn rhifyn arlein y *Kennedy School Review 2011* yn Harvard — mor agos at ddyddiad etholiadau Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Ysbrydolwyd pobl yr Alban gan rym eich dadleuon — gyda chymorth yr SNP, wrth gwrs. Ysywaeth, wedi'u gwrhydri wrth fynnu pwerau deddfu yn Refferendwm Mawrth 3, dihangodd y Cymry yn ôl i'w *default setting* Prydeinig o flaen blychau pleidleisio'r Cynulliad ar Fai 5.

Ond nid trafod pa mor ddylanwadol fu neu bydd eich dadansoddiad o fendithion annibyniaeth i economïau gwledydd bychain yw'r rheswm imi ddanfon y llythyr agored hwn atoch. Wedi'r cyfan, bu geiriau Fritz Schumacher, Leopold Kohr a D.J.Davies yn bwysig iawn i nifer ohonom yma yn y mudiad cenedlaethol.

Yn hytrach, eich gwahodd i ystyried rhywbeth pwysicach hyd yn oed na hynny, i'm tyb i. Sef, faint o sylwedd sydd, bellach, i ddadansoddiadau ynglŷn â dyfodol masnach a diwydiant sydd ddim yn gosod y cyfan yng nghyd-destun yr ergydion cynyddol, amrywiol, sy'n taro yn sgil Newid Hinsawdd.

Fe gytunwch nad oedd cyfeiriad o gwbl yn eich erthygl at ganlyniadau cynhesu byd-eang ar dwf economaidd a masnachu rhyngwladol. Roedd hynny'n adlewyrchu agwedd penaethiaid byd busnes a gwleidyddiaeth. I gymaint ohonynt, peth 'arall' yw'r amgylchedd; peth 'ymylol'. Cymerant y Ddaear yn ganiataol – er mai'r Ddaear sy'n ein cynnal.

Rwy'n troi atoch yn y gobaith na fyddwch am barhau'n rhan o'r orthodocsi peryglus hwn wrth i chi ystyried dyfodol cenhedloedd bychain, a mawr.

Neges ein prif wyddonwyr rhyngwladol, a'u cymdeithasau gwyddonol sylweddol, yw bod sefyllfa ecolegol ein planed yn prysur droi'n fygythiol iawn. O ran masnach ryngwladol, cafwyd rhybudd taer gan Syr Nicholas Stern o'r niwed economaidd tebygol yn y **Stern Report** (2006).

Wrth i ni anwybyddu cynhesu byd-eang, mynd yn anoddach mae hi i ddelio â'r newid hinsawdd eithafol sy'n ganlyniad iddo.



**Cyn-A.S. Plaid Cymru Adam Price sy'n Ysgolor Fulbright yn Ysgol Lywodraeth Kennedy yn Harvard. Yn y** Kennedy School Review 2011, **mae'n dadlau bod annibyniaeth yn fanteisiol yn economaidd i wledydd bychain — *Small is Cute, Sexy and Successful: Why Independence for Wales and other Countries makes Economic Sense.***
**Llun: Marian Delyth**

Mae hyn yn enwedig o wir mewn cyfnod o grebachiad ariannol a chodiad costau defnyddiau o bob math. Ond mae effaith ein difrodi amgylcheddol – yn bennaf yr allyriadau $CO_2$ – yn aros yn yr atmosffer am 30 mlynedd, gan bentyrru. Felly, mae gwir angen dilyn y rhybuddion gwyddonol i dorri lawr ar frys ar yr allyriadau hynny.

Nid sôn am y dyfodol pell ydym bellach, ond am ein brodyr a'n chwiorydd sy'n dioddef yn barod o ganlyniadau amrywiol cynhesu byd-eang ledled ein planed. Oes angen rhestru'r canlyniadau? — stormydd amlach a mwy eithafol, sychder a gwres enbyd, codiad yn lefel y môr, llifogydd, ymlediad heintiau trofannol fel Dengue Fever, datod cadwynau bwyd trwy golli rhywogaethau cyfan o anifeiliaid, pysgod, plancton, adar a phlanhigion, dinistrio fforestydd sy'n sugno $CO_2$, colli pridd a dŵr croyw, rhyddhau methan o'r twndra sy'n toddi, ac ymlaen. Hyn yw canlyniad y difrod a wnawn mor ddi-hyd i ecosystemau cywrain, cymhleth, hanfodol ein Daear.

Ar ben hyn, rydym hefyd yn ei hysbeilio ar garlam o'i hadnoddau naturiol fel olew, glo a nwy. A dyw'r Ddaear ddim yn tyfu — sy'n dipyn o broblem i athrawiaeth Twf Economaidd. Ond mater arall yw hwnnw.

Adam, beth am gymryd mantais o'ch sefyllfa yn Harvard, a'ch enw da fel cyn Aelod Seneddol disglair a dylanwadol yn y DG, i gysylltu â rhai o ffigyrau mawr mudiad y Ddaear yn America i drafod hyn oll?

Beth am ffonio Bill McKibben yn Vermont, awdur arloesol ar y pwnc, sylfaenydd mudiad **350.org** a chyn-fyfyriwr yn Harvard! Cerwch ar-lein i weld rhan o'i araith ddiweddaraf am yr argyfwng (*You Tube: Bill McKibben Speaking at Power Shift 2011*) neu darllenwch ei lyfr newydd ysgytwol am y blaned lai cyfeillgar rydym bellach yn byw arni, sef **Eaarth**. Gellwch ei ebostio ar: mckibben.bill@gmail.com.

Un arall sy'n eitha' agos atoch yw'r gwyddonydd ymgyrchol, yr Athro James E. Hansen, y cyntaf i rybuddio Cyngres yr Unol Daleithiau ynghylch cynhesu byd-eang ym 1988 ac awdur **Storms of my Grandchildren** (teitl braidd yn optimistaidd, medd rhai). Mae e lawr yn Efrog Newydd. Ei gyfeiriad yw: Columbia University, Armstrong Hall, 2880 Broadway, New York, NY 10025 USA.

A dyna Amory Lovins, pennaeth y Rocky Mountain Institute pwysig, canolfan syniadau blaengar ar ynni adnewyddol yn Boulder, Colorado. Fe'i henwyd yn **Time** fel un o'r 100 person mwyaf dylanwadol ar y blaned yn 2009. Americanwr ydyw ond daeth i nabod Cymru'n dda wrth ysgrifennu **Eryri — Mountains of Longing** pan oedd yn gymrawd yn Rhydychen**.** (http://www.rmi.org)

Gellwch, hefyd, edrych ar waith un o'ch cyd-fyfyrwyr, Mars Hanna, yn yr un rhifyn o'r **Kennedy School Review**. Bu'n gynorthwy-ydd arbennig i lywodraeth yr Unol Daleithiau yn Copenhagen. Mae'n gorffen ei erthygl, **Turning Up the Heat on Global Climate Negotiations,** gyda'r geiriau hyn*: 'Mae'n debyg mae dyfeisgarwch yw ein hadnodd fwyaf fel dynolryw. Rhaid i ni wneud defnydd o'r egni a'r weledigaeth hyn i oresgyn ein gwahaniaethau, cydnabod ein dynoliaeth gyffredin, a deall ein ffawd gyffredin ar y blaned hon.'*

Adam, gobeithio, wir, y bydd y neges hon yn fodd i chi ail-ystyried, fel y cewch weld bod rhaid i les y Ddaear fod yn gyd-destun i bob trafodaeth wleidyddol ac economaidd bellach, gan gynnwys annibyniaeth gwledydd bychain fel Cymru.

Maddau'r llythyr. Mae'r pwnc mor bwysig a'ch cyfle i feddwl y tu hwnt i'r orthodocsi gwleidyddol ac economaidd mor fawr. Mae gwir angen arweiniad newydd arnom.

Pob dymuniad da,
Hywel

# Climate Camp stormus DG yn dod i ben

Gan MOTH FOSTER

**ERS i fudiad Climate Camp ddechrau yn y DG mae problemau mewnol wedi dod i'r brig oherwydd tyndra ynglŷn â'r cyfeiriad a'r pwyslais – a bellach mae'r mudiad wedi dod i ben ar lefel Brydeinig, er nid efallai ar lefel Gymreig.**

Roedd rhai o aelodau Climate Camp wedi dod ynghyd am wythnos ym mis Chwefror eleni ym Monkton Wyld Court, Dorset, Lloegr, i drafod dyfodol y mudiad.

Ar ddiwedd yr wythnos cymerwyd y penderfyniad mai'r ffordd orau ymlaen oedd dod â Climate Camp DG fel yr oedd i ben. Felly, fydd 'na ddim gwersyll canolog yr haf yma fel y bu, er enghraifft, ger safle glo brig Ffos y Frân, Merthyr Tudful, yn 2009.

Rhan o'r rheswm tu ôl i'r penderfyniad hwn oedd bod llawer o'r un bobl wedi bod yn gweithredu mewn mudiadau eraill fel UK Uncut ac ymgyrchoedd amgylcheddol lleol.


Ond, ers y penderfyniad yn Dorset, cynhaliwyd gwersyll hinsawdd yn ne Lloegr ger Brighton.

Trefnwyd y gwersyll hwn gan fudiad Climate Camp Arfordir y De, sef enw grŵp sydd wedi tyfu allan o gymuned arfordir deheuol y Climate Camp gwreiddiol.

Hyd yn hyn, does dim penderfyniad wedi'i gymryd gan Climate Camp Cymru. Ond disgwylir y bydd grŵp Dyfi — ardal Aberystwyth a Machynlleth — yn cyfarfod cyn bo hir i drafod y gorffennol a'r dyfodol. Bu Grŵp Dyfi yn hanfodol yn holl brosiect Climate Camp Cymru.

Mae'n debyg, hefyd, y bydd rhai o bobl Climate Camp Cymru yn cwrdd yng Ngwersyll *Peace News* sy'n digwydd ger yr Amwythig ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Fe allai unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy ynglŷn â phenderfyniad Dorset, ddarllen *Metamorphosis: A statement from the Camp for Climate Action* ar wefan Climate Camp DU, sef http://climatecamp.org.uk/2011-statement



**Gwersyll Climte Camp Cymru ger safle glo brig Ffos y Frân, 2009**

> 'Caniateir i Exxon Mobil a BP a Peabody Coal ddefnyddio'r atmosffer, yn rhad ac am ddim, fel carthffos agored ar gyfer gwastraff anochel eu cynnyrch.'
> ***Bill McKibben, Eaarth***

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

### Pigion amrywiol 2 fis

### ANELU AT 30%

CYNHALIWYD protest gan 170 o aelodau Greenpeace yn y Gynhadledd Fusnes Ewropeaidd ym Mrwsel. Gwrthodwyd mynediad i gynrychiolwyr cwmnïau fu'n gwrthwynebu targed i ostwng allyriadau carbon o 30% yn Ewrop erbyn 2020. Roedd rhain yn cynnwys pobl Microsoft, BP, Volkswagen a Maersk. Croesawyd cynrychiol-wyr cwmnïau oedd o blaid y targed cryfach, e.e., Google, Unilever, Danone, Philips, IKEA, ac Allianz.

### IEUENCTID

MAE cynhyrchwyr ffilm newydd **Odyssey2050** sy'n denu llawer o sylw yn gwahodd pobl ifainc i gynnig syniadau. Y stori yw bod bodau estron yn teithio o 2050 i rybuddio'r Ddaear am beryglon cynhesu byd-eang. Pobl ifainc sy'n achub y blaned. Mwy: www.odyssey2050the movie.org

### CHWALU COED

YN Rwsia cafodd pobl sy'n gwrthwynebu difrodi fforest Khimki ger Moscow ar gyfer traffordd newydd eu hanafu'n ddifrifol gan swyddogion diogelwch preifat. Mae'r goedwig fedw yn rhan o wregys gwyrdd y ddinas. Y cwmni rhyngwladol Ffrengig Vinci sy'n codi'r draffordd gan glirio'r coed ddydd a nos. Bydd y draffordd $8 biliwn yn hwyluso teithio ar gyflymder (a $CO_2$) uchel rhwng Moscow a St Petersburg.

### TRAWSNEWID

MAE mudiad Trefi Trawsnewid ar dwf led-led y byd. Ym Mai, e.e., cynhaliwyd y cwrs hyfforddiant trawsnewid cyntaf yng Ngholombia, De America; yn Siapan cynhaliwyd trafodaeth genedlaethol a sefydlwyd safle wiki Siapaneëg / Saesneg 'Trefi Trawsnewid yn Asia'; lansiwyd gŵyl fwyd lleol yn nhref Riddell, Awstralia; gwelwyd prosiect adfer hen feiciau yn Grange-mouth, yr Alban; cafwyd cynhadledd trawsnewid economi 2-dydd yn Putney, Vermont, a chynhadledd creu systemau bwydydd lleol yn Colorado. A mwy .... o lawer! Mudiad cymunedol yw Trefi Trawsnewid i baratoi at fyd heb olew. Mwy: www.transitionnetwork.org/news

### IÂ'N DIFLANNU

MAE astudiaeth gan gorff gwyddonol *Rhaglen Arolygu ac Asesu'r Arctig* wedi datgelu y gallai lefelau'r môr godi dros fedr a hanner yn fyd-eang cyn diwedd y ganrif gan fod newid hinsawdd yn cyflymu yn yr Arctig. Gan mai'r chwe blynedd diwethaf oedd y poethaf ers i recordiau gychwyn, rhybuddir y gallai Cefnfor yr Arctig fod yn rhydd o iâ o fewn 30-40 blynedd sy'n llawer cynt na'r disgwyl. Bydd colli'r iâ yn bwydo mwy eto o gynhesu byd-eang.

### FFOI YN ALBERTA

ACHOSODD sychder a gwyntoedd cryfion dannau enfawr a ddifrododd dref Slave Lake yn Alberta, Canada. Gorfodwyd y cyfan o'r 7,000 o drigolion ffoi. Bu dros 100 o dannau'n llosgi allan o reolaeth am gyfnod ym mis Mai. Dim ond pythefnos cyn i'r tannau ddechrau, gollyngwyd olew o bibell gan achosi salwch i bobl cymuned Little Buffaflo yn nhiroedd traddodiadol y Lubicon Cree. Mae Alberta'n enwog am brosiectau olew tywod y cwmnïau ynni ffosil fel BP sy'n eithriadol o ddinistriol i'r Ddaear.

### DYDD Y BLANED

YN Wellington, Seland Newydd, bu 30 o bobl ifainc yn dysgu sgiliau arwain yn barod ar gyfer **Dydd Planed Symudol**, a gynhelir ar Fedi 24. Cafwyd sgwrs gan y gwyddonydd Americanaidd Dr James Hansen oedd ynghanol taith ddarlithio trwy'r wlad. Dysgwyd pam bod angen symud ar frys o ynni ffosil fel glo ac olew at ddyfodol o ynni glan os ydym i reoli Newid Hinsawdd. Cynhaliwyd y gweithdy 4 diwrnod mewn *marae*, sef man cwrdd a byw yn iaith traddodiadol y Maori. Mae ieuenctid ledled y byd yn dilyn cyrsiau tebyg ar hyn o bryd.

**CAFODD CATHARINE HUWS NAGASHIMA EI MAGU AR YNYS MÔN OND BU'N BYW YN SIAPAN ERS TRO. YN GEFNOGOL I FUDIAD TREFI TRAWSNEWID YNO, DAETH YN ÔL I GYMRU'R LLYNEDD GAN YMWELD Â RHAI O'N GRWPIAU TT NI YMA YNG NGHYMRU. DYMA RAI O'I HARGRAFFIADAU ...**

# Trefi Trawsnewid - annog mwy ohonom i ymuno





Trefi Trawsnewid ar gynnydd yn Siapan. Sut mae gweithgarwch Cymru'n cymharu?
*Lluniau o martinjapan.blogspot*

**YMHLITH pobl sy'n ystyried bywyd yn y dyfodol y mae, ar y cyfan, ddwy agwedd wahanol. Un yw bod technolegau newydd yn mynd i ddatrys ein holl broblemau; yr ail yw bod angen newid ein ffordd o fyw a chymdeithasu — ac mae'r ddwy braidd yn ddrwgdybus o'i gilydd.**

Mae mudiad Trefi Trawsnewid yn syrthio yn yr ail agwedd. Byw efo llai o ynni (lleihau ein hôl-troed carbon oherwydd newid yn yr hinsawdd); wynebu dyfodol efo olew prinnach a drutach; palu'r meysydd parcio; ail-gysylltu efo'r lleol; cydweithio. Dyna rai o'u bwriadau, a'r allweddeiriau yw — hunangynhaliaeth leol; hyblygrwydd; dycnwch.

I Gymry o fy nghenhedlaeth i sy'n cofio byw trwy'r Ail Ryfel Byd heb drydan na 'dŵr rhedegog', mae yna duedd i feddwl, "Pwy ydyn nhw (sef, y Saeson sy'n symud i mewn yma) i bregethu wrthym sut dylen ni fyw?"

Yn ystod Haf 2010 es ar drip bach, gyda dwy gyfeilles — y tair ohonom yn wragedd yn ein saithdegau a fagwyd yn Ynys Môn. Un bellach o ardal o Freemantle lle mae pawb efo paneli haul ar eu toeau ac yn tyfu llysiau ar ymyl y stryd. Un o Iwerddon a oedd wedi ystyried symud i fyw i bentref-eco. A fi, o Zushi, Siapan, drws nesaf i Dref Trawsnewid Hayama, y rheswm am fy niddordeb.

## GRWPIAU YMYLOL

Es ar y trip yma yn credu nad pregethu mae pobl Trefi Trawsnewid, ond chwilio am gefnogaeth, am gydberthynas efo mudiadau lleol eraill. Pan ddaeth y tair ohonom i ymweld â gwaith TT yng Nghymru, roeddwn wedi disgwyl y byddai'r TT yng nghanol pethau, yn gwlwm i rwydwaith o grwpiau oedd yn ceisio cadw diwylliant a thraddodiadau lleol, yn ogystal â grwpiau amddiffyn yr amgylchedd.

Yn Llandeilo nid hynny oedd yr argraff. Yn hytrach, casgliad o is-grwpiau ar yr ymyl ydy TT yno ar hyn o bryd. Maent yn ystyried ynni (glan ac adnewyddol), economeg newydd, bwyd, ffarmio, permaddiwylliant *(permaculture)* ac addysg, ac y mae Cymdeithas y Dalar sy'n rhedeg rhandiroedd wedi mynd yn annibynnol. Wedi dweud hyn, yn y cyffiniau, mae Siop Gymunedol Dryslwyn yn arbennig iawn.

## HIRAETH AM Y FRO

Ar y llaw arall, yn Llanbedr Pont Steffan, y mae aelodau TT mewn gwell gyswllt â'r gymdeithas leol. Mae'r ymdrech i gymryd drosodd Neuadd Victoria fel canolbwynt i werthu llysiau lleol a chynnal cyfarfodydd cerddorol ac yn y blaen yn nodedig.

Yn wir mae Cymry Cymraeg yn brin ymhlith y mudiadau TT yma, ond pobl sy'n meddwl am Gymru ydynt gan fynnu eu bod nhw hefyd yn teimlo 'hiraeth' am y 'fro'.

Cofiwch, chwarter canrif yn ôl, roedd pobl CAT, Canolfan y Dechnoleg Amgen, yn cael eu hystyried fel grŵp o hipis oedd yn ceisio rhoi wyneb newydd ar lecyn bychan y tu allan i Gorris e.e. 'toiled compost' yn hytrach na thŷ bach tu allan.

Erbyn hyn mae ganddynt ddylanwad byd eang, ysgol graddedigion yr amgylchedd, Cynog Dafis ar y bwrdd, ac maent hefyd yn hyfforddi pobl leol efo sgiliau technolegau newydd. Mae eu hadroddiad, **Zero Carbon Britain 2030,** yn un sylweddol dros ben, ac i bobl CAT y mae'r diolch am hwnnw.

Mewn degawd neu ddau, mae'n debyg y bydd y mudiad Trefi Trawsnewid wedi'i wreiddio yn ein cymdeithasau.

Nid yw'n fudiad sy'n ceisio dynwared yr hen ffordd o fyw. Mudiad ydyw sy'n manteisio ar yr amrywiaeth o dechnolegau bach newydd sy'n cael eu dyfeisio, ac sy'n rhoi sylw i brofiadau a gwybodaeth y genhedlaeth sy'n cofio sut i fyw bywyd cynaliadwy.

Ymunwch! ☐

# TT yn ymateb i'r ddaeargryn

FEL y gwyddoch, ar Ddydd Gwener, Mawrth 11, eleni, cafwyd daeargryn ddychrynllyd yn Tohoku, Siapan. Yn dilyn, daeth tsunami anhygoel i ddinistrio trefi cyfan.

Wedyn buom i gyd yn profi'r hunllef o beidio â gwybod faint o ymbelydredd fyddai'n dod o'r adweithydd niwclear toredig yn Fukushima, neu pa bryd fyddai'r dŵr ddim ffit i'w yfed.

Nid oes dewis bellach i fwyafrif pobl dwyrain a gogledd Honshu ond defnyddio llai o ynni. Efo toriadau trydan am tua phedair awr ddwywaith bob dydd, mae hyn yn orfodol.

Ond mae pobl yn dechrau sylweddoli, os ydynt yn cydweithio i ddefnyddio llai o drydan, mae hi'n bosibl na fydd angen y toriadau pob tro. Os maent yn gwybod beth sy'n digwydd maen nhw'n fwy parod i gyfrannu a chydweithio.

Rwy'n byw yn rhanbarth Kanagawa. Er nad oeddem yn agos iawn at ganolbwynt y ddaeargryn fawr, cawsom ein hysgwyd yn llwyr, ac roeddem yn dal i deimlo ôl-gryniadau ac yn cael toriadau trydan.

Pwy ydych chi'n meddwl oedd y cyntaf yn yr ardal i gofrestru tai, a chynnig lloches i'r bobl sy'n ffoi *(efaciwis)* o'r ardaloedd lle malwyd popeth gan y tsunami, neu'r ardaloedd efo'r ymbelydredd gwaethaf?

Na, nid y cyngor lleol, ond mudiad y Trefi Trawsnewid. Mae pobl y fro, drwy weithio efo'i gilydd, yn medru gwneud mwy nag unigolion ar eu pennau eu hunain. ☐

*CATHARINE HUWS NAGASHIMA*

## Cyfiawnder economaidd yn dibynnu ar gael gwared ag unedau mawr

Nid economi cystadleuol sy'n rhwystro cyfiawnder economaidd, ond crynhoi gallu economaidd mewn nifer fach o fentrau monopolistig sy'n llawer rhy fawr. Pŵer, yn hytrach nag incwm, sydd raid ei ailddosbarthu. A'r unig ffordd o wneud hyn yw trwy gael gwared o'r unedau mawr ac atgyfodi unedau bychain yn brif sail gweithredu cymdeithasol ac economaidd.

**Leopol Kohr, *Cymru Fach* (Lolfa, 1980 – ac yn fwy gwir heddiw nag erioed)**

# Gyda'r byd yn troi yn erbyn niwclear, pa synnwyr fynd ymlaen â Wylfa B?



***YR HER SY'N WYNEBU CARWYN JONES A IEUAN WYN JONES***
**gan GORDON JAMES Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru**

**MAE trychineb atomfa Fukushima yn Siapan, yn dilyn y ddaeargryn erchyll a tsunami, wedi gorfodi ail-feddwl byd-eang ar ynni niwclear. Mae Tsieina wedi gosod gwaharddiad dros dro ar ganiatâd i gynigion i godi atomfeydd, caeodd yr Almaen saith o'i hatomfeydd oedrannus i lawr, ac mae Siapan wedi cael gwared a chynlluniau i ehangu'i rhaglen niwclear gan ddewis, yn lle hynny, i hybu ynni adnewyddol.**

Yng Nghymru, cawsom ein hatgoffa gan ben-blwydd 25ain mlynedd trychineb Chernobyl bod 300 o ffermydd mynydd eisoes yn byw gyda chanlyniadau'r llwch ymbelydrol ddisgynnodd, er iddyn nhw gael eu sicrhau ar y pryd mai dim ond am dair wythnos y byddai'n effeithio arnynt. Datgelodd y pen-blwydd hefyd dystiolaeth sy'n achos pryder ynglŷn â phroblemau iechyd hirdymor sy'n effeithio ar filoedd, yn arbennig yn Wcráin a'r gwledydd cyfagos.

Yn ôl adroddiad a ryddhawyd gan y *Worldwatch Institute* ar ben-blwydd Chernobyl, roedd ynni niwclear yn gwanychu'n amlwg cyn trychineb Fukushima. Noda fod cynnyrch ynni adnewyddol wedi tyfu'n fwy am y tro cyntaf yn fyd-eang nag ynni niwclear y llynedd. Cynyddodd fuddsoddiadau mewn ynni gwyrdd o 30%, gan gyrraedd $243 biliwn.

Mae'n ymddangos fod y llywodraeth yng Nghymru yn rhan gyflawn o'r duedd fyd-eang hon. Nod ei Datganiad Polisi Ynni yw cynhyrchu hyd at ddwywaith o'n hanghenion trydan o ffynonellau adnewyddol erbyn 2025 ac i wella arbed ynni mewn cartrefi.

Mae ei rhaglen **Ardal Garbon Isel Blaenau'r Cymoedd** wedi ennill canmoliaeth fawr — rhaglen i leihau tlodi ynni, torri allyriadau a chreu swyddi trwy wella effeithlonrwydd ynni a gosod systemau ynni adnewyddol bychan mewn miloedd o dai. Gyda pholisïau mor effeithlon yn weithredol i ddelio â newid hinsawdd ac elwa o dwf cyflym yr economi werdd, pwy ar y ddaear fyddai'n dymuno adeiladu atomfa newydd yng Nghymru?

Wel, ysywaeth, dau arweinydd y llywodraeth glymblaid Gymreig flaenorol, Carwyn Jones ac Ieuan Wyn Jones, a wrthwynebodd bolisi'r llywodraeth roedden nhw'n ei harwain. Yn achos Ieuan Wyn Jones, roedd e hefyd yn wynebu'n groes i gyfeiriad y blaid roedd yn ei harwain.

Mae cipolwg ar lwyddiant yr SNP yn yr Alban yn awgrymu'r elw ddaw o arweiniad cryf, ymroddedig, ar agenda gwyrdd cryf. Roedd hyn yn f'atgoffa o'r arweiniad ysbrydoledig a gymerwyd ar bynciau gwyrdd gan Cynog Dafis a Phil Williams ym mlynyddoedd cynnar y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyn etholiadau'r Cynulliad, roedd Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi ysgrifennu at arweinwyr y ddwy blaid yn eu hannog i ddilyn polisïau eu llywodraeth i wrthwynebu codi atomfeydd newydd yng Nghymru.

Fe gyfeirion ni at berygl damweiniau; at ddiffyg llefydd diogel ar gyfer gwastraff peryglus; at y cysylltiad gydag arfau niwclear a'r peryglon o ehangiad niwclear ac ymosodiadau terfysgwyr; ac at y ffaith bod atomfeydd o hyd yn costio llawer mwy ac yn cymryd llawer mwy o amser i'w codi nag yr honnwyd.

Mae'r prosiect banerog sy'n cael ei adeiladu yn Olkiluoto yn Ffindir, a fwriadwyd i ddangos i Ewrop yr elw o godi niwclear newydd, wedi profi'n llanastr ariannol sy'n rhedeg pedair blynedd y tu ôl i'w amserlen gan gostio o leiaf 90 y cant yn uwch na'r gyllideb. Dywedodd yr Athro Stephen Thomas o Brifysgol Greenwich yn y **Financial Times** ar 28 Ebrill y llynedd fod ynni niwclear yn debyg i gostio mwy na dwbl amcangyfrif llywodraeth y DG o £1,250 y kw ac i fod yn fwy costus na ynni gwynt o'r môr.

Mae trethdalwyr y DG yn wynebu bil o £80 biliwn, sy'n dal i gynyddu, i lanhau'r safleoedd presennol, ac, er bod niwclear yn cyflenwi llai na phedwar y cant o ynni'r DG, mae'n cyfrif am dros hanner cyfanswm cyllideb yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

Gan fod ynni niwclear yn darparu cyn lleied o ynni Prydain, mae ei gyfraniad at ddelio a newid hinsawdd yn gymharol fach. Ac, fel dywedodd Jane Davidson yn y Cynulliad ar 10 Tachwedd y llynedd, fe allai arian fynd i ynni niwclear "ar draul ynni adnewyddol".

Fe wnaed y pwynt hwn yn gryf gan yr Athro Catherine Mitchell o Brifysgol Exeter sydd wedi ysgrifennu:


"Bydd maint y rhwymiadau ariannol, gwleidyddol a sefydliadol fydd eu hangen i godi atomfeydd newydd yn tanseilio cefnogaeth i adnewyddol ac yn mynnu mesurau i'w lleihau ... ac fe fydd yn cyfyngu'n uniongyrchol ar allu'r DG i gwrdd â'i thargedau newid hinsawdd."

Mae gweddill y byd yn troi cefn ar ynni niwclear gan fod ei beryglon a'i gostau ariannol yn diddymu unrhyw fantais. Fe ddylai Llywodraeth newydd Cymru sicrhau y gall potensial enfawr Cymru i gyflenwi ynni o ffynonellau adnewyddol, wrth dalfyrru ar wastraff, sicrhau'r dyfodol glanach, diogelach sydd angen arnom.

Gobeithio y bydd y Prif Weinidog, sydd â chyfrifoldeb dros ynni yn y Cabinet, yn gallu cael ei ddarbwyllo y byddai codi atomfa ar Wylfa yn tynnu sylw o hynny mewn modd peryglus a chostus. ◻

CHARLOTTE DAVIES : YMWELD Â DWY DDINAS SY'N GWARCHOD EU HUNANIAETH ...

# Datblygwyr? "Dim diolch!", medd Fenis a Charleston





**Dwy ddinas sy'n mynnu glynnu at eu hetifeddiaeth: Fenis (uchod) yn brwydro yn erbyn bygythiad porthladd enfawr a ffordd newydd a Charleston (dde) yn gwrthod derbyn archfarchnadoedd i'w hardal hanesyddol**

**YN ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni fel teulu wedi teithio i ddwy ddinas ble caiff ymwelwyr deimlad o arwahanrwydd hudolus o'r munudau cyntaf iddynt gyrraedd.**

Dwy ddinas, hefyd, sy'n enghreifftiau o sut mae cymunedau'n gallu glynu at batrymau traddodiadol yn lle ildio i 'ddatblygiadau' modern dinistriol.

Fis Medi diwethaf, teithion ni ar Eurostar i Baris ac ar dren-dros-nos i Santa Lucia, sef gorsaf reilffordd Fenis. Wrth gerdded allan o'r adeilad ben bore, dyna ni'n sefyll ar risiau llydan yn arwain i lawr at ryfeddod y *Canal Grande* a'i *palazzi* gwych. Oddi yno, aethom ar gwch *vaporetto* i'r lanfa agosaf ar y Gamlas at ein llety, gan gerdded yno gyda'n bagiau trwy strydoedd cul a dros bontydd bach y camlesi llai.

Mae Fenis yn ddinas brysur o ryw 250,000 o bobl. Ond hi, hefyd, yw ardal drefol ddi-gar fwyaf Ewrop, yn unigryw ar y cyfandir fel yr unig ddinas o faint sylweddol sy'n dangos ei bod yn bosibl i weithredu'n effeithiol yn yr 21ain Ganrif heb geir na loriau.

Yn ystod y dyddiau dilynol, cawsom brofi bywyd ble mae popeth yn cael ei symud ar y dŵr, ac yna'n cael ei wthio ar droliau rhwng adeiladau prydferth yr oesoedd canol. Dyma ddinas sy'n defnyddio'r camlesi fel y prif wythiennau trafnidiaeth ar gyfer teithio o le i le, gwasanaethau brys, angladdau, dosbarthu nwyddau, cyflenwi marchnadoedd a siopau, casglu sbwriel ac ati gan lynges o fadau pwrpasol.

## 'Y DDINAS SANCTAIDD'

Dyna'r tro cyntaf i ni fod yn Fenis, ar ôl breuddwydio am wneud hynny ers blynyddoedd. Ond ym mis Ebrill a Mai, wrth ymweld â'r teulu yn Ne Carolina, aethom am dro i ddinas arfordirol Charleston — rhywbeth rydym wedi'i wneud yn flynyddol ers rhyw 30 blynedd.

Gyrru yno wnaethom ar draffordd I-26, sy'n troi'n 8-lôn wrth nesáu at Charleston, un o brif borthladdoedd masnach America. Mae'r ffordd brysur yn eich hebrwng trwy filltiroedd *'urban sprawl'* hyll y ddinas.

Saif y Charleston hanesyddol ar benrhyn rhwng dwy afon. Wrth i'r rhan fwyaf o'r traffig groesi at y maestrefi bob ochr i Afon Ashley a Cooper, mae'r ymwelydd a'r 'ddinas sanctaidd', fel y'i gelwir yn lleol, yn disgyn i lawr i ganol strydoedd tawel o'u cymharu â gwallgofrwydd yr I-26. Yn sydyn, dyma gymdogaeth o dai sy'n perthyn i'r oes o'r blaen.

Wedi dim ond rhyw hanner dwsin o flociau, y peth synhwyrol i'w wneud yw parcio'ch car a dechrau cerdded. Dydy ceir ddim wedi'u gwahardd, ond mae eu niferoedd yn lleihau'n sylweddol wrth symud i lawr y penrhyn.

Mae fy nith, sy'n fyfyrwraig yng Ngholeg Charleston, yn dweud nad ydy hi'n defnyddio'i char mwy nag unwaith yr wythnos; ar ei beic y mae hi. Yn bendant, mae'n well cerdded neu fynd ar daith ceffyl-a-chert i werthfawrogi'r holl dai balconïog o'r cyfnod *Colonial* a'i gerddi hyfryd, cysgodol, ynghyd a'r eglwysi ac adeiladau cyhoeddus urddasol. Mae cannoedd yno, rhai'n dyddio nôl cymaint â 200 mlynedd a mwy.

Fenis a Charleston. Dwy ddinas hudolus o brydferth. Ac er bod y ddwy yn denu twristiaid yn eu miloedd ar filoedd, maent yn cadw'u cymeriad. Sut? Wel, maen nhw'n gymunedau go iawn ac yn gymunedau sydd wedi gwrthod ildio i 'ddatblygiad' masnachol confensiynol.

Achubwyd ardal hanesyddol helaeth Charleston gan ddinasyddion balch a sefydlodd gymdeithasau i warchod eu hetifeddiaeth – y *Charleston Historic Foundation* a'r *Preservation Society of Charleston*. Gweithgarwch gwirfoddol lleol fu hyn.

Maen nhw wedi bod yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar wleidyddion y ddinas. Mae **Cynllun Cadw Dinas Charleston** (2008) yn pwysleisio rôl cymdogaethau i gadw cymeriad y ddinas ac yn annog cymorth i fusnesau bach lleol — 'siopau cornel' — er mwyn galluogi pobl i gwrdd â'u hanghenion bob dydd heb orfod defnyddio'u ceir. A heb gael eu boddi gan adeiladau mawrion, modern, na fyddai'n gweddu a'r naws hanesyddol ac a fyddai'n tanseilio economïau lleol. Does dim archfarchnadoedd yn amlwg yn yr hen Charleston nac yn Fenis 'chwaith.

Bu'n frwydr wahanol yn Fenis. Yno, dros y blynyddoedd, bu cynlluniau gan ddatblygwyr i wthio mwy o ffyrdd i'r ddinas trwy lenwi rhai camlesi. Yn lle bod lorïau a cheir yn cael eu cyfyngu i ardal y porthladd neu i'r lle parcio pwrpasol, byddai hynny wedi rhoi rhwydd hynt i drafnidiaeth gymryd drosodd. Gwrthwynebwyd a threchwyd y cynlluniau hyn gan bobl y ddinas.

## YSBRYDOLIAETH

Y bygythiad cyfredol i Fenis yw dymuniad Llywodraeth yr Eidal i ddatblygu'r porthladd yn enfawr er mwyn iddo wasanaethu gogledd yr Eidal ac ardaloedd deheudir Ewrop. Ofn pobl Fenis a chyngor y ddinas yw mai'r cynllun cudd yw creu traffordd fawr rhwng y ddinas a dinas Padua yn lle'r gobeithion gwreiddiol am gamlas newydd. Mae'r pryder ynghylch yr effaith niweidiol ar y ddinas yn fawr — a'r gwrthwynebiad i ethos 'datblygu economaidd' yn fawr hefyd.

Felly, er mor bell o'i gilydd, ac mor wahanol, mae Charleston a Fenis yn ddinasoedd hanesyddol llwyddiannus sy'n ein hatgoffa nad pawb sy'n derbyn bod 'datblygiadau' modern o reidrwydd yn gwella safon bywyd. Mae ymgyrchoedd gwahanol eu trigolion i warchod eu hetifeddiaeth yn ysbrydoliaeth o ran sut mae cymunedau'n gallu gwrthsefyll pwysau datblygwyr. ◻

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## Dewi Pws yn lansio gŵyl newydd

BYDD yr enwog Dewi Pws Morris yn agor Gŵyl Fwyd gyntaf Castell Newydd Emlyn ar Sadwrn, Mehefin 18, am 11yb – ac mae'n siwr o fod yn ddiwrnod gwych, llawn hwyl. Cynhelir yr Ŵyl yng Nghaeau Chwarae Brenin Siôr V. Bydd y cogydd adnabyddus Bryn Williams o *Great British Menu* ac Odette's yn Primrose Hill, Llundain, yn cynnal arddangosfa goginio. Yn dangos eu sgiliau hefyd bydd y Masterchef lleol Ludovic Dieumegard (Ludo) a chogyddion Gwesty'r Emlyn. Ceir eitemau amrywiol gan ysgolion lleol a bydd rhyw 30 o gynhyrchwyr lleol yn gwerthu bwyd a chynnyrch o'r safon uchaf. Parcio a theithio am ddim o Gaeau Rygbi Dôl Wiber. Mynediad am ddim i'r Ŵyl. Estynnir croeso mawr i bawb. 11yb—4yp

## Lluoedd Cymod ar Epynt

MAE Cymdeithas y Cymod yn cynnal achlysur arbennig ar Fynydd Epynt ar Ddydd y Lluoedd Arfog, Sadwrn, Mehefin 25, sef i gofio'r bobl ddiniwed a laddwyd gan awyrennau di-beilot. Yr ardal rhwng yr Epynt ac Aberporth ar arfordir Ceredigion yw un o'r ddau le yn Ewrop lle mae hawl i awyrennau di-beilot gael eu harbrofi. Y bwriad yw cychwyn am 2yp o'r Shoemakers Arms, Pentrebach, Pontsenni, gan anelu am adfeilion Capel y Babell oddi fewn i faes ymarfer y fyddin. Cynhelir gwasanaeth yno dan ofal y Parch Guto Prys ap Gwynfor, am 2.30yp. Yna bydd rhai o'r bobl ddiniwed a gafodd eu lladd gan awyrennau di-beilot yn cael eu coffau drwy ysgrifennu eu henwau ar y cerrig beddi yn y fynwent ffug yno. Mae modd trefnu bwyd o flaen llaw yn y Shoemakers Arms os cysylltir erbyn Mehefin 17.

► **Am fanylion pellach gweler www.cymdeithasycymod.org.uk/dyddiadur.htm neu cysylltwch â cymdeithasycymod@btinternet.com neu 01286-830913.**

## Medi 24 — Dydd 'Planed Symudol'




**MAE paratoadau ar gerdded gan grwpiau gwirfoddol ledled y byd i drefnu gweithgareddau cyffroes ar gyfer Dydd 'Planed Symudol' a gynhelir ar Sadwrn, Medi 24. Syniad mudiad rhyngwladol 350.org (a sefydlwyd gan Bill McKibben) yw'r dydd pwysig hwn i dynnu sylw gwleidyddion a phawb arall at yr angen i dorri ar allyriadau $CO_2$. Yr nod yw sicrhau bod presenoldeb $CO_2$ yn yr atmosffer yn dechrau disgyn at y 350 darn y filiwn, i lawr o'r 390 cyfredol.**

*350 yw'r nod!*

**Dywed mudiad 350 .org eu bod eisoes yn gwybod am gannoedd o ddigwyddiadau Planed Symudol ledled y blaned – gyda'r pwyslais ar y symud. Yn Wellington, Seland Newydd, bydd gorymdeithiau gwahanol yn anelu at lan y mor – beiciau, ceffylau, sglefrfyrddau, cychod, kayaks, nofwyr ac ati. Bwriad Sao Paulo, Brasil, yw protest enfawr gan feicwyr fydd yn cau ffordd fawr brysur a godwyd heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer na beicwyr na cherddwyr. Yn Papua, Guineau Newydd, bydd cannoedd o bobl yn cynnal symudiad symbolaidd o'r trefi yn ôl i'w fforestydd i ddangos eu bwriad i gadw gafael ar dreftadaeth byd natur. Beth am yma yng Nghymru?**

► Am fwy o wybodaeth: www.350.org

## Gwneud dillad

GELLIR dysgu sut i wneud eich dillad eich hunain a phatrymau ar ddydd Sadwrn, Awst 6, yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe. Cynhelir y gweithdy gan Helen Ball. Y gost fydd £15.

► **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Chanolfan yr Amgylchedd: 01792 480200,** info@environmentcentre.org.uk

## Cymru organig

BYDD Canolfan Organig Cymru unwaith eto yn yr Ardal Gofal Cefn Gwlad yn ystod y Sioe Amaethyddol Frenhinol Gymreig yn Llanelwedd, Gorffennaf 18 - 21. Mae croeso i gwmnïau ymuno â nhw trwy gysylltu ar frys â'r Ganolfan. Y cyntaf i'r felin a gaiff falu! Bydd yno amrywiaeth o arddangosfeydd diddorol yn adlewyrchu gweithgarwch organig ledled Cymru.

► **Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01970 622248, neu ebostiwch** organic@aber.ac.uk

## Gwersyll heddwch

BETH am fynd am dro dros y ffin i bentref Berrington ger yr Amwythig? Dyna le cynhelir Gwersyll Heddwch Peace News rhwng Gorffennaf 28 ac Awst 1. Gan anelu at y math o gydfyw sy'n hanfodol ar gyfer planed heddychlon a chynaladwy, bydd y gwersyll bywiog, teuluol hwn yn cael ei weinyddu'n ddemocrataidd a bydd ynni adnewyddol yn cynnal gwasanaethau. Bydd yno gerddoriaeth, trafodaethau, gweithdai sgiliau, ffilmiau, gweithgareddau i blant, bar i oedolion a bwyd figan hyfryd gan gwmni Veggies o Nottingham.

► **Am fwy o wybodaeth:** peacenewscamp@googlemail.com

## Creu gerddi

UN o swyddogaethau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw helpu ysgolion a grwpiau cymunedol sefydlu gerddi bywyd gwyllt. Swyddog Garddio Bywyd Gwyllt arbenigol yr Ymddiriedolaeth yw Anna Williams.

► **Croeso i bawb sydd â diddordeb gysylltu ag Anna am fwy o wybodaeth. Ei rhifau ffôn yw 01248 360981 a 07772280970**

**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth Gostau Hysbysebu yn*** *Y Papur Gwyrdd*, **ebostiwch: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn (tua) Mehefin 27 ar gyfer rhifyn Awst / Medi**

► **Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion a syniadau i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn Mehefin 27 os ar gyfer rhifyn Awst / Medi.**
**Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

## Plannu gobaith




**ARWEINYDD Plaid Cymru Ieuan Wyn Jones AC, Leanne Wood AC, a'r ymgeisydd Cynulliad Sera Evans-Fear yn ystod ymweliad etholiadol ym mis Mai â phrosiect Ffarm Ffaldau, Blaenllechau, yn y Rhondda Fach. Fe'u gwelir gyda'r rheolwr, Vic Doyle (crys-t du), a dau o wirfoddolwyr.**

**Mae Vic wrthi'n cydlynu cynllun bwyd fydd yn cynnwys dysgu sgiliau busnes a garddwriaeth cynaladwy yn dilyn egwyddorion permaddiwylliant i bobl leol. Mae gan y ffarm 100 o erwau a'r gobaith yw ehangu'r prosiect.**

**Meddai Leanne Wood, "Mae prosiectau fel Ffarm Ffaldau yn cynnig pelydryn o obaith i gymunedau lleol fel Blaenllechau sydd wedi colli cymaint yn ddiweddar - ysgol, siop, swyddfa bost, a chanolfan gymuned."**



## Esbonio Newid Hinsawdd





**Y GWYDDONYDD Syr John Houghton gyda Dafydd Iwan (chwith) ac Emlyn Davies (isod) yn ystod darlith ar gynhesu byd-eang ym Mhrifysgol Bangor. Cynhaliwyd y ddarlith fel rhan o Gynhadledd Newid Hinsawdd a drefnwyd gan Undeb Annibynwyr Cymru ynghyd â Chymorth Cristnogol a Bedyddwyr a Phresbyteriaid Cymru.**

## Rhyfel oer newydd lle bu'r iâ?



Llun gan NASA o'r dŵr sy'n ymddangos lle bu iâ yn yr Arctig. Mae mudiad Greenpeace yn rhybuddio bod tensiynau'n codi rhwng gwledydd wrth iddynt ddechrau mynnu hawliau i dyllu am olew yno. Byddai'r drilio'n peryglu'r amgylchedd, yn achosi gwrthdaro rhyngwladol, ac yn bwydo'r allyriadau tŷ gwydr sy'n achosi cynhesu byd-eang.

## Y byd a'r aelwyd

### Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

### GWEITHGARWCH BRWDFRYDIG O BLAID Y BYD

**ROEDD gennym newyddion da ynglŷn â'r lleihad yn ein defnydd o nwy yn ein colofn *Y Byd a'r Aelwyd* ddiwethaf. Rydym eto i weld a fydd lleihad tebyg yn ein defnydd trydanol ers i ni droi at Good Energy y llynedd.**

Mae Good Energy yn un o'r cwmnïau hynny sy'n cyflenwi dim ond trydan o ffynonellau adnewyddol, di-garbon, i'r grid cenedlaethol: ynni gwynt ar hyn o bryd ond gyda gobaith i gynnwys ynni haul - gan droi cefn ar losgi glo budr/brwnt.

Wrth checio ffigyrau ein bil trydan diweddaraf, daethom ar draws gwefan ddiddorol sydd â llawer o gyngor syml, ymarferol, ynglŷn â sut y gallwn dorri ar ein hallyriadau carbon yn ein bywydau pob dydd.

I'r rhai ohonom sydd a diddordeb yn y rhyngrwyd - ond gyda phob parch i bawb sy'n dweud naw wfft i'r cyfan! - hoffem son wrthych am wefan www.whatyoucando.co.uk. Gwefan annibynnol ydy hon a sefydlwyd gan ŵr o'r enw Mark Williamson yn 2006. Dyma'u disgrifiad o'u hymgyrch:

*Sefydlwyd whatyoucando gan Mark wedi iddo sylwi nad oedd un ffynhonnell benodol yn esbonio beth mae pob un ohonom yn gallu'i wneud am newid hinsawdd, er yr holl wybodaeth ar-lein amdano. Mae Mark yn teimlo'n angerddol ynglŷn ag atal newid hinsawdd a helpu'n byd ynni-newynnog i symud yn llwyddiannus at ddyfodol carbon-isel.*

*Rydym eisiau gweld bywyd carbon-isel yn dod yn rhywbeth deniadol fydd pobl yn anelu ato ac yn ei werthfawrogi. Does dim pwynt eistedd o gwmpas yn aros i lywodraeth a busnesau weithredu'n briodol. Rydym i gyd yn gyfrifol am y broblem a gyda'n gilydd gallwn ei hateb.*

Yr hyn a'n trawodd yw bod gwefan whatyoucando yn enghraifft obeithiol arall o rywun sy'n ceisio gwneud rhywbeth i ffrwyno eithafion newid hinsawdd yn lle gwthio pen i'r tywod neu suddo i anobaith di-ffrwyth.

Y gwir yw bod gweithgarwch ysbrydoledig ar gael ledled y byd gan unigolion a grwpiau gwirfoddol i wneud daioni i'n Daear yn lle ei difrodi a'i hysbeilio. Dyma'r math o frwdfrydedd all achub y sefyllfa, os gallwn ei drosglwyddo i'n gwleidyddion a phenaeth-iaid byd busnes, a'n cymdogion!

### LLWYTH O DDARLLEN

CYRHAEDDON ni adref o'n hymweliad blynyddol â theulu Charlotte yn Ne Carolina gyda phentwr arall o lyfrau a chylchgronnau dadlennol ar bwnc difrifoldeb y bygythiad sy'n wynebu'r Ddaear.

Er mai'r Unol Daleithiau yw llygrwr gwaethaf yr amgylchedd, ysbeiliwr mwyaf yr adnoddau, a chartref efengyl prynwriaeth a thwf economaidd anghynaladwy, mae gan y wlad, hefyd, rhai o arweinwyr mwyaf galluog a mwyaf huawdl y mudiad Gwyrdd ac ymhlith y grwpiau gweithredu amgylcheddol mwyaf creadigol a mentrus.

Rydym eisoes wedi darllen digon ar lyfrau **Eaarth** gan Bill McKibben, ac **Our Choice: A Plan to Solve the Planet Crisis** gan Al Gore, ac ar gylchgronnau **Mother Jones** ac **Earth Island Journal** i wybod bod yma eto gyfraniadau hynod bwysig i'r ymdrechion i berswadio'r byd bod angen newid cyfeiriad ar frys.

Yn ystod ein harhosiad yng Ngholumbia, prif ddinas SC, roedd wythnosolyn lleol y **Free Times** hefyd wedi cyhoeddi *Rhifyn Gwyrdd 2011*. Oedd y gair ar led bod cyhoeddwyr **Y Papur Gwyrdd** wedi cyrraedd? Hwyl am y tro –

***Hywel a Charlotte***

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## ... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

